

Rheolau / Cyfarwyddyd y Grantiau Datblygu a Grantiau'r Gist Gymunedol

	Grantiau Datblygu	Y Gist Gymunedol
Uchafswm y Grant	£25,000, ond gellir bod yn hyblyg o dan amgylchiadau arbennig iawn.	£1,500
Lleiafswm y Grant	£1,501 fel rheol.	Yn unol â mympwy panel y Gist Gymunedol.
Payment Profile	Fel rheol, taliad o 50% ymlaen llaw ac yna taliad terfynol o'r gweddill wedi derbyn y ffurflen hawlio derfynol a'r gwaith papur / anfonebau cysylltiedig.	Taliad o 100% ymlaen llaw (ar ffurf sic).
Cyfraniad yr Ymgeisydd tuag at y Prosiect	Fel rheol, byddwn yn disgwyl i chi gyfrannu o leiaf 20% o gostau'r prosiect. Mae'n rhaid i sefydliadau'r sector cyhoeddus a sefydliadau masnachol wneud cyfraniad sy'n lleiafswm o 50% fel rheol.	Mae disgwyl i'r ymgeisydd gyfrannu os yw cyfanswm costau'r prosiect yn uwch nag uchafswm y grant a ganiateir.
Diben y Grant	<ul style="list-style-type: none"> Mae Chwaraeon Cymru'n cyllido prosiectau sy'n datblygu chwaraeon a hamdden egniol yn y gymuned. Ein gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon Cymru yw uno cenedl chwaraeon falch, lle mae pob plentyn wedi gwirioni ar chwaraeon am oes a Chymru'n genedl o bencampwyr. Mae cyllid ar gael i sefydlu prosiectau newydd neu i godi safon y gweithgareddau presennol. Mae grantiau ar gael ar gyfer prosiectau cyfleuster ar raddfa fechan, offer a phrosiectau sy'n cefnogi datblygiad pobl, hyfforddiant a ffyrdd newydd o weithio. 	
Pwy all wneud cais	<p>Unrhyw grŵp sydd â chyfrif banc yn enw ei sefydliad. Mae'n bur debyg y byddwch yn un o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Clwb neu Gymdeithas Chwaraeon Corff Rheoli Chwaraeon Awdurdod Lleol Clwb Ieuenctid <p>Os ydych chi'n unigolyn yn gwneud cais am grant, bydd rhaid i chi siarad â'ch swyddog rhanbarthol cyn i chi gyflwyno eich cais.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Grŵp Cymunedol Cymdeithas Wirfoddol Gweithle

Pwy na all
wneud cais

- Sefydliadau lle mae'r prosiect wedi'i ddechrau eisoes.
- Ysgolion cynradd / uwchradd sy'n trefnu gweithgareddau i'w disgyblion.
- Aelodau unigol o'r cyhoedd.

Pa gostau ellir
eu talu

- Fel rheol, byddwn yn ystyried eitemau fel y rhain:
- Prynu offer chwaraeon newydd neu ychwanegol
 - Addysgu hyfforddwyr
 - Sefydlu timau newydd
 - Llogi lleoliad neu ffioedd hyfforddwr (uchafswm o 20 sesiwn)
 - Costau marchnata rhesymol

- Mannau Gemau Aml Ddefnydd
- Prosiectau Cyfalaf, fel gwaith adeiladu i greu cyfleusterau newydd
- Ar gyfer gwaith adeiladu, bydd rhai ffioedd proffesiynol yn gymwys am gefnogaeth hefyd, e.e. ffioedd pensaer
- Prynu tir neu hawliau ar dir er mwyn datblygu mannau gweithgarwch
- Prosiectau entrepreneuraidd neu arloesol sy'n arwain at fwy o bobl yn dod yn fwy egniol
- Grantiau sefydlu i gefnogi mentrau
- Prosiectau draenio caeau
- Llifoleuadau at ddibenion hyfforddi
- Datblygu mannau hyfforddi.

Pa gostau na
ellir eu talu

- Cynnal a chadw, atgyweirio neu newid offer neu gyfleusterau presennol (er hynny, rhoddir ystyriaeth i newid offer nad yw'n cydymffurfio bellach â'r ddedfwriaeth bresennol)
- Prynu eitemau personol o offer
- Prosiectau y tu allan i Gymru
- Gweithgareddau corfforol fel garddio, DIY, gwelliannau amgylcheddol, dawnsio perfformiad neu sgiliau syrcau
- Prosiectau y credir eu bod yn rhan o gostau rhedeg o ddydd i ddydd y sefydliad
- Arlwy a lletygarwch
- Medalau, tystysgrifau neu dlysau
- Teithiau yn y wlad hon neu dramor
- Achlysuron unigryw heb unrhyw gyswllt â gweithgarwch parhaus
- Aelodaeth

- Prosiectau cyfalaf (prosiectau sy'n cynnwys adeiladu neu brynu tir)

- Cefnogaeth ariannol i unigolion

Grantiau Datblygu

Y Gist Gymunedol

Amodau / Cyfyngiadau Grant

- Ni fydd eich prosiect yn gymwys am gyllid os nad yw dyfarniadau blaenorol wedi'u cau gan Chwaraeon Cymru

- Gall sefydliad gyflwyno mwy nag un cais ond ni all dderbyn mwy nag uchafswm y grant y flwyddyn
- Mae prosiect yn parhau ar agor nes bod eich ffurflen cwblhau prosiect wedi cael ei dychwelyd a'i chymeradwyo

Cyn Cyflwyno Eich Cais

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi gwneud y canlynol:

- Egluro'n glir beth rydych chi'n ei wneud a pham
- Sicrhau bod y dyddiadau dechrau ar eich ffurflen yn gywir (oherwydd ni all unrhyw beth fod wedi cychwyn)

Dogfennau Ategol

- 3 dyfyn-bris gyda'r eitemau o offer chwaraeon wedi'u rhestru arnynt, os yw gwerth eitem unigol yn fwy na £250. Ar gyfer gwaith adeiladu, amcan-bris 1 Maintfesyrydd o gostau neu 3 dyfyn-bris gyda'r eitemau wedi'u rhestru arnynt.
- Copiâu o fantolennau banc y 3 mis diwethaf ar gyfer POB cyfrif sydd gan eich sefydliad (amherthnasol i Sefydliadau Statudol, Cwmnïau Cyfyngedig Cyhoeddus neu Gyrrff Rheoli Cenedlaethol e.e. Byrddau Iechyd Lleol / Awdurdodau Lleol ac yn y blaen).

Amherthnasol

Am Ragor o Wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech dderbyn rhagor o wybodaeth am ein cynlluniau dyfarnu, cysylltwch â'ch swyddfa ranbarthol agosaf:

- Cenedlaethol / De Ddwyrain: 0845 0450904
- De Orllewin: 0845 0450906
- Gogledd Ddwyrain: 0845 0450908
- Gogledd Orllewin: 0845 0450910

Anfonwch at Swyddog Grantiau eich Awdurdod Lleol (SGALI) perthnasol. Ceir y manylion yng ngwefan Chwaraeon Cymru:

www.sportwales.org.uk/funding--support/our-grants/community-chest.aspx

Ewch ymlaen i ddarllen ein Telerau a'n Hamodau os gwelwch yn dda:

Telerau ac Amodau (TacA'au) Grantiau Cyngor Chwaraeon Cymru ("CChC")

- 1.** Mae'r cynnig ("y Cynnig") o gyllid grant ("y Cyllid Grant") a wnaed i chi ("y Derbynnnydd") yn llythyr cynnig CChC ("y Llythyr Cynnig") yn amodol ar y TacAau hyn a bydd yn ddilys i'w dderbyn gan y Derbynnnydd am gyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad y Cynnig, oni bai fod CChC wedi cynnig estyniad ar yr amser yn ysgrifenedig. Bydd amser yn allweddol yn y cyswllt hwn. Daw'r Cynnig i ben yn awtomatig ar ddiwedd y cyfnod hwnnw ac, os bydd angen cyllid o hyd gan CChC, bydd rhaid i'r Derbynnnydd wneud cais o'r newydd.
- 2.** Mae'n rhaid i'r Derbynnnydd ddynodi ei fod yn derbyn y Cynnig drwy arwyddo a dyddio'r ffurflen dderbyn a geir ar wrthddalen y Llythyr Cynnig a thrwy ddychwelyd yr wrthddalen i CChC. Dim ond wedi i CChC dderbyn yr wrthddalen wedi'i harwyddo fydd y cynnig yn cael ei dderbyn. Ni fydd unrhyw ddull arall o dderbyn yn effeithiol nac yn cael ei dderbyn gan CChC.
- 3.** Mae'r Llythyr Cynnig (ynghyd ag unrhyw ddogfennau y cyfeirir atynt ynddo) a'r TacAau hyn yn cynnwys y cytundeb llawn rhwng CChC a'r Derbynnnydd mewn perthynas â'r Cyllid Grant ("y Cytundeb Grant") ac os bydd unrhyw beth yn anghyson rhwng y Llythyr Cynnig a'r TacAau, cynnwys y Llythyr Cynnig fydd yn cael y llaw uchaf.
- 4.** Rhyddheir Cyllid Grant (yn llawn neu'n rhannol) i'r Derbynnnydd ar sail y telerau ac ar adegau fel y nodir yn y Llythyr Cynnig ac os bydd rhyddhau'r cyllid yn galw ar i'r Derbynnnydd berfformio neu gydymffurfio mewn unrhyw ffordd ag unrhyw ddyletswydd, bydd rhaid gwneud hynny mewn modd fydd er boddhad CChC.
- 5.** Swm y Cyllid Grant y manylir yn ei gyloch yn y Llythyr Cynnig yw'r uchafswm fydd CChC yn ei dalu tuag at y Prosiect.
- 6.** Mae'r cyllid mae CChC yn ei ddosbarthu fel grantiau'n dod gan naill ai Lywodraeth Cynulliad Cymru neu'r Loteri Genedlaethol. Bydd dyletswydd CChC i dalu'r Cyllid Grant i'r Derbynnnydd yn amodol ar adegau ar CChC yn derbyn y cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru neu'r Loteri Genedlaethol, fel y bo'r achos.
- 7.** Bydd y Derbynnnydd yn gwneud y canlynol:-
 - 7.1** defnyddio'r Cyllid Grant ar gyfer y diben a nodir yn y Llythyr Cynnig ("y Prosiect"), fel y diwygiwyd neu a amrywiwyd gyda chaniatâd ysgrifenedig a chymeradwyaeth gan CChC;
 - 7.2** rhoi gwybod yn ysgrifenedig i CChC os yw'r Prosiect, wedi ei gwblhau, wedi costio llai na'r swm y lluniwyd cyllideb ar ei gyfer yn wreiddiol. Bydd rhybudd o'r fath yn manylu ynghylch swm y tanwariant ar y Prosiect ac, os bydd CChC yn mynnu hynny, bydd y Derbynnnydd yn ad-dalu neu, fel arall, yn rhoi cyfrif i CChC am y gyfran briodol (fel y penderfynir yn rhesymol gan CChC ond, fel rheol, bydd yn gyfran o gyfanswm y costau Prosiect y cyllidwyd ar eu cyfer ac y mae'r Cyllid Grant yn eu cynrychioli) o'r tanwariant ac, mewn unrhyw achos, ni fydd yn ofynnol i CChC dalu i'r Derbynnnydd unrhyw ran o'r Cyllid Grant sydd heb ei dynnu i lawr bryd hynny;
 - 7.3** cyflwyno i CChC adroddiadau ar gynnydd y Prosiect (yn cynnwys, heb gyfyngiad, gwybodaeth ariannol) yn unol â chais CChC o dro i dro, ynghyd ag unrhyw adroddiadau y manylir yn eu cyloch yn y Llythyr Cynnig;
 - 7.4** monitro llwyddiant y Prosiect a darparu i CChC unrhyw wybodaeth y mae ei hangen yn rhesymol er mwyn bodloni CChC bod y Prosiect yn cael ei weithredu'n briodol ac yn unol â thelerau'r Llythyr Cynnig;
 - 7.5** caniatáu i CChC gynnal ymweliadau monitro a gwerthuso perthnasol i'r Prosiect a bydd y Derbynnnydd yn cydweithredu'n llawn â CChC yn y cyswllt hwn;

- 7.6** sicrhau y cydymffurfiwyd â'r holl ofynion monitro ac adrodd yn ôl mewn perthynas â'r Prosiect cyn cyflwyno unrhyw gais yn y dyfodol am gyllid grant mewn perthynas ag unrhyw brosiect arall. Ni fydd CChC yn ystyried unrhyw gais am grant yn y dyfodol os bydd unrhyw ofynion monitro neu adrodd yn ôl heb eu bodloni;
- 7.7** cadw a chynnal llyfrau a chofnodion ariannol digonol mewn perthynas â'r Prosiect (yn cynnwys, heb gyfyngiad, y defnydd o'r Cyllid Grant) ac, ar gais, bydd yn sicrhau bod y llyfrau a'r cofnodion o'r fath ar gael ar gyfer eu harchwilio gan CChC neu unrhyw asiantau a enwebir ganddo;
- 7.8** ymatal rhag gwneud unrhyw newid neu amrywiad sylfaenol i'r Prosiect heb sicrhau caniatâd a chymeradwyaeth ysgrifenedig gan CChC i ddechrau;
- 7.9** rhoi gwybod ar unwaith i CChC am unrhyw newid sylfaenol yn amgylchiadau'r Derbynnnydd neu am unrhyw beth a all effeithio ar y Prosiect; ac
- 7.10** arddangos, gosod neu gydnabod mewn unrhyw ffordd y Cyllid Grant sydd wedi'i ddarparu ar gyfer y Prosiect, fel y pennir gan CChC o dro i dro.

8. Yn ddarostyngedig i gymalau 9 a 10 isod, bydd rhaid i'r Derbynnnydd ad-dalu'r Cyllid Grant ar unwaith a bydd unrhyw ddyletswydd ar i CChC wneud unrhyw daliadau pellach yn dod i ben ar unwaith wedi i CChC roi rhybudd ysgrifenedig i'r Derbynnnydd os bydd unrhyw un o'r digwyddiadau a ganlyn ("Achlysur o Dorri Cytundeb") yn digwydd ar unrhyw adeg (boed cyn neu wedi talu'r Cyllid Grant yn llwyr i'r Derbynnnydd):-

- 8.1** y Derbynnnydd yn rhoi'r gorau i weithredu (oni bai ei fod yn uno gyda chorff arall neu bod corff arall yn cymryd ei le a bod y corff hwnnw'n gallu cwblhau'r Prosiect er boddhad CChC);
- 8.2** y Derbynnnydd yn cael ei ddatgan yn fethdalwr, yn cael ei roi yn nwylo'r gweinyddwyr neu'r derbynyddion, dan gytundeb gwirfoddol neu'n cael ei ddiddymu;
- 8.3** y Derbynnnydd yn methu defnyddio'r Cyllid Grant ar gyfer y Prosiect;
- 8.4** y Derbynnnydd yn methu cwblhau'r Prosiect oddi mewn i'r amser a nodir yn y Llythyr Cynnig neu oddi mewn i amser rhesymol, fel y pennir gan CChC;
- 8.5** y Derbynnnydd wedi cwblhau ei ffurflen gais ar gyfer y Cyllid Grant yn dwyllodrus, yn anghywir neu'n gamarweiniol o ran manylion penodol;
- 8.6** os bydd y Derbynnnydd, wedi derbyn y Llythyr Cynnig, yn ymddwyn ar unrhyw adeg yn dwyllodrus neu'n esgeulus, i'r graddau lle mae twyll neu esgeulustod o'r fath, ym marn CChC, yn cael effaith sylfaenol ar y Prosiect;
- 8.7** y Derbynnnydd yn torri unrhyw rai o amodau'r Cytundeb Grant; neu
- 8.8** ceir newid ym mherchnogaeth neu reolaeth y Derbynnnydd.

9. Os ceir Achlysur o Dorri Cytundeb mewn perthynas â Phrosiect gyda nifer o elfennau amrywiol, bydd gan CChC hawl i gyflwyno rhybudd dan gymal 8 uchod mewn perthynas â'r elfen neu'r elfennau o'r Prosiect sydd wedi'u heffeithio, ond dal ati i gefnogi'r elfennau o'r Prosiect sydd heb eu heffeithio gyda Chyllid Grant.

10. Os bydd CChC yn cyflwyno rhybudd dan gymal 8 uchod, wrth benderfynu ar swm y Grant i'w ad-dalu, rhoddir ystyriaeth i unrhyw ran o'r Prosiect sydd, ym marn CChC, wedi'i gwblhau'n llwyddiannus cyn yr Achlysur o Dorri Cytundeb.

- 11.** Os bydd y Derbynnnydd yn sicrhau (yn llwyr neu'n rhannol) neu'n adfer, yn gwarchod neu'n gwella asedau gan ddefnyddio Cyllid Grant ("Asedau"), bydd y Derbynnnydd yn sicrhau nad ydynt yn cael eu gwerthu na'u gwaredu yn ystod eu hoes economaidd (fel y penderfynir gan CChC) ("Oes Economaidd") oni bai fod (a) CChC yn derbyn rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw o'r gwerthu a (b) bod eu gwerth llawn ar y farchnad gyfredol yn cael ei wireddu. Ni fydd asedau'n cael eu gwerthu na'u gwaredu yn ystod eu Hoes Economaidd am bris llai na'r gwerth llawn ar y farchnad gyfredol heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan CChC.
- 12.** 1Os bydd rhaid gwerthu neu waredu Asedau yn ystod eu Hoes Economaidd, bydd CChC yn derbyn cyfran briodol o'r elw net. Yn gyffredinol, bydd cyfran o'r fath ar gyfrannedd uniongyrchol i gyfran cost berthnasol yr Ased a dalwyd gyda'r Cyllid Grant. Gall CChC, yn unol â'i fympwy ei hun yn llwyr, ildio'r hawl yma os yw'n credu y byddai'n amhriodol o ystyried yr holl amgylchiadau. Hefyd, gall CChC ildio'r hawl yma ymlaen llaw, cyn unrhyw fwriad gwirioneddol i werthu neu waredu Asedau, ar yr amod bod:-
- 12.1** elw'r gwerthu neu'r gwaredu'n cael ei ddefnyddio er budd y Prosiect; a bod
- 12.2** trefniadau yn eu lle sy'n foddhaol ym marn CChC ar gyfer delio gydag elw'r gwerthu neu'r gwaredu os yw'n fwy neu'n llai nag a ragdybiodd CChC yn wreiddiol.
- 13.** Ni fydd unrhyw Ased (yn cynnwys unrhyw dir neu adeiladau, heb gyfyngiad) yn cael ei ddefnyddio i godi morgais neu ffi yn ystod ei Oes Economaidd heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan CChC.
- 14.** Os defnyddir unrhyw elfen o'r Cyllid Grant at ddiben recriwtio staff, personél neu wirfoddolwyr mewn cysylltiad â'r Prosiect ("Gwirfoddolwyr"), cyfrifoldeb y Derbynnnydd, ac nid CChC, fydd unrhyw Wirfoddolwyr o'r fath. Heb ragfarn i gyffredinoled y uchod, bydd holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r cyflogwr mewn perthynas â'r Gwirfoddolwyr yn gorwedd gyda'r Derbynnnydd yn unig, yn cynnwys, heb gyfyngiad, y cyfrifoldeb am unrhyw ddiswyddiadau, materion disgyblu, cwynion a materion aildosbarthu.
- 15.** Bydd y Derbynnnydd yn sicrhau indemneb llawn i CChC rhag ac yn erbyn unrhyw gostau a thaliadau sy'n codi ym mha ffordd bynnag ac sy'n berthnasol i amddiffyn neu ddelio mewn unrhyw ffordd arall ag unrhyw hawliadau yn erbyn CChC a wneir gan neu ar ran unrhyw Wirfoddolwyr.
- 16.** Yn ystod cyfnod y Prosiect, bydd y Derbynnnydd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r holl ddeddfau eraill perthnasol i iechyd a diogelwch, hybu cyfleoedd cyfartal, atal gwahaniaethu o unrhyw fath a sicrhau bod plant, pobl ieuainc ac oedolion bregus yn cael eu gwarchod, yn cynnwys, heb gyfyngiad, wrth recriwtio Gwirfoddolwyr.
- 17.** Os bwriedir sicrhau nwyddau, gwasanaethau neu waith gan ddefnyddio'r Cyllid Grant, bydd y Derbynnnydd yn sicrhau bod gweithdrefn dendro gystadleuol yn cael ei gweithredu wrth ddyfarnu pob cytundeb i gyflenwyr neu gontractwyr, oni bai fod CChC yn cytuno'n ysgrifenedig i ildio'r weithdrefn hon. Heb gyfyngu ar hawl CChC i ganiatáu neu wrthod unrhyw ildio, fel y gwél yn dda, efallai y caniateir ildio dan amgylchiadau fel cytundebau a fydd yn syrthio dan y lefelau de minimis a bennwyd gan CChC neu am resymau technegol neu artistig neu i warchod hawliau eithriol.
- 18.** Os yw'r Derbynnnydd yn gorff cyhoeddus, bydd y Derbynnnydd yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gartref ac Ewropeaidd berthnasol mewn perthynas â sicrhau gan ddefnyddio Cyllid Grant.
- 19.** Mae'r Cytundeb Grant yn bersonol i'r Derbynnnydd ac ni all y Derbynnnydd drosglwyddo nac aseinio ei ddiddordeb yn y Cytundeb Grant heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan CChC. Gall CChC aseinio neu drosglwyddo ei ddiddordeb yn y Cytundeb Grant ar unrhyw adeg heb ganiatâd y Derbynnnydd.

- 20.** Bydd gan CChC hawl i ddatgelu unrhyw wybodaeth a sicrheir gan y Derbynnnydd yn ystod y cais am Gyllid Grant ac unrhyw wybodaeth mae'n ei sicrhau gan y Derbynnnydd yn unol â'r Cytundeb Grant ("Gwybodaeth") i sefydliadau atal twyll ac unrhyw sefydliadau eraill at ddibenion atal twyll. Gall sefydliadau o'r fath rannu'r wybodaeth gyda sefydliadau eraill at ddibenion atal twyll. Gall yr wybodaeth gynnwys data sy'n ddata personol dan ddarpariaethau Deddf Gwarchod Data 1998.
- 21.** Bydd y Derbynnnydd yn gwneud pob ymdrech resymol i gynorthwyo CChC i gydymffurfio â dyletswyddau o'r fath, fel y gorfodir ar CChC dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
- 22.** Bydd pob rhybudd yn ysgrifenedig ac yn cael ei anfon gyda phost dosbarth cyntaf neu drwy ffacs, ar yr amod bod unrhyw ffacs yn cael ei gadarnhau o fewn pedair awr ar hugain (24) gan gopi cadarnhaol a anfonir gyda phost dosbarth cyntaf. Cymerir yn ganiataol bod rhybuddion sydd wedi'u cyfeirio'n gywir ac a anfonir gyda phost dosbarth cyntaf wedi'u dosbarthu ymhen deugain ac wyth (48) o oriau wedi postio a chymerir yn ganiataol bod ffacs a anfonir i'r rhif cywir wedi'i dderbyn ar unwaith wrth ei yrru, ar yr amod ei fod yn cael ei gadarnhau fel y nodir uchod. Nid yw'n ddilys cyflwyno rhybuddion drwy gyfrwng e-bost.
- 23.** Os bydd CChC yn methu gweithredu neu rhannol weithredu unrhyw ddarpariaeth yn y Cytundeb Grant, ni fydd hynny'n cael ei ystyried fel ildio unrhyw hawliau dan y Cytundeb Grant. Dim ond os yw'n ysgrifenedig fydd ildio unrhyw hawl dan y Cytundeb Grant yn effeithiol a dim ond i'r amgylchiadau mae'n cael ei gyflwyno y bydd yn berthnasol.
- 24.** Bydd unrhyw gyfeiriad yn y TacAau at y gyfraith yn gyfeiriad at y gyfraith a weithredir o dro i dro, gan roi ystyriaeth i unrhyw ddiwygiad, estyniad, cais neu fesurau ailfabwysiadu ac mae'n cynnwys unrhyw ddeddfwriaeth eilradd berthnasol sydd mewn grym ar y pryd.
- 25.** Rheolir y gwaith o ffurfio, creu, perfformio a gwirio dilysrwydd pob agwedd ar y Cytundeb Grant gan ddeddfau Cymru a Lloegr ac mae pawb sy'n rhan o'r cytundeb yn ildio i awdurdod eithriol llysoedd Cymru a Lloegr.

Cofiwch dicio'r blwch ar y Ffurflen Gais i gadarnhau eich bod wedi darllen a deall y TacAau hyn:

Telerau ac Amodau



- Bydd unrhyw gynnig o grant a wneir i chi'n amodol ar Delerau ac Amodau Grant Cyngor Chwaraeon Cymru ac rydych wedi derbyn copi o'r rhain. Cofiwch ddarllen y Telerau a'r Amodau hyn cyn cyflwyno eich cais am grant. Ticiwch i ddynodi eich bod wedi gwneud hynny.

